

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) Curriculum and Assessment (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—

The Bill will be considered in the following order—

Sections 2 - 8	Adrannau 2 - 8
Section 1	Adran 1
Sections 10 - 18	Adrannau 10 - 18
Section 9	Adran 9
Sections 20 - 25	Adrannau 20 - 25
Section 19	Adran 19
Sections 27 - 30	Adrannau 27 - 30
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 31 - 36	Adrannau 31 - 36
Section 26	Adran 26
Sections 38 - 48	Adrannau 38 - 48
Section 37	Adran 37
Sections 50 - 55	Adrannau 50 - 55
Section 49	Adran 49
Sections 56 - 57	Adrannau 56 - 57



Sections 59 - 61	Adrannau 59 - 61
Section 58	Adran 58
Sections 62 - 71	Adrannau 62 - 71
Schedule 2	Atodlen 2
Sections 72 - 83	Adrannau 72 - 83
Long title	Teitl hir

Llyr Gruffydd **51**

Section 3, page 2, after line 12, insert –

‘Climate Crisis and Ecological Emergency’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

‘Yr Argyfwng Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol’.

Suzy Davies **1**

Section 3, page 2, after line 13, insert –

‘Lifesaving Skills and First Aid’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 16, ar ôl ‘Saesneg’, mewnosoder –

‘Sgiliau Achub Bywyd a Chymorth Cyntaf’.

Suzy Davies **2**

Section 3, page 2, line 14, after ‘Education’, insert ‘(including Menstrual Wellbeing Education)’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 13, ar ôl ‘Rhywioldeb’, mewnosoder ‘(gan gynnwys Addysg Lles Mislifol)’.

Sian Gwenllian **43**

Section 3, page 2, after line 15, insert –

‘The History of Wales in all of its diversity, including Black and People of Colour History’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

‘Hanes Cymru yn ei holl amrywiaeth, gan gynnwys Hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw’.



Gareth Bennett

34

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Reckless

Section 3, page 2, line 17, leave out 'is not to be treated as a mandatory element' and insert 'and Welsh are not to be treated as mandatory elements'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 17, hepgorer 'yw Saesneg i'w thrin fel elfen fandadol' a mewnosoder 'yw'r Gymraeg na'r Saesneg i'w trin fel elfennau mandadol'.

Suzy Davies

3

Section 6, page 3, after line 7, insert –

- '() The What Matters Code must include an understanding of Lifesaving Skills and First Aid as a key concept for the Health and Well-being area of learning and experience.'

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i God yr Hyn sy'n Bwysig gynnwys dealltwriaeth o Sgiliau Achub Bywyd a Chymorth Cyntaf fel cysyniad allweddol ar gyfer y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles.'

Sian Gwenllian

44

Section 6, page 3, after line 7, insert –

- '() The What Matters Code must set out how an understanding of the key historical events of Wales and the world, including –

- (a) Black and People of Colour History,
- (b) Black, Asian and minority ethnic experiences and contributions, and
- (c) the histories of racism and diversity,

will be ensured across areas of learning and experience.'

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i God yr Hyn sy'n Bwysig nodi sut y bydd dealltwriaeth o ddigwyddiadau hanesyddol allweddol Cymru a'r byd, gan gynnwys –

- (a) hanes Pobl Dduon a Phobl Groenliw,
- (b) profiadau a chyfraniadau pobl Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac
- (c) hanes hiliaeth ac amrywiaeth,

yn cael ei sicrhau ar draws meysydd dysgu a phrofiad.'

Llyr Gruffydd

52

Section 6, page 3, after line 7, insert –

- '() The What Matters Code must include an understanding of the severity and urgency of the Climate Crisis and Ecological Emergency as a key concept across all areas of learning and experience.'



Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 7, mewnosoder –

- '() Rhaid i God yr Hyn sy'n Bwysig gynnwys dealltwriaeth o ddifrifoldeb a natur frys yr Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol fel cysyniad allweddol ar draws pob maes dysgu a phrofiad.'

Suzy Davies

4

Section 8, page 3, after line 29, insert –

- '() The RSE Code must include Menstrual Wellbeing as a theme or matter that is to be encompassed by the mandatory element of Relationships and Sexuality Education.'

Adran 8, tudalen 3, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- '() Rhaid i'r Cod ACRh gynnwys Lles Mislifol yn thema neu'n fater sydd i'w gwmpasu gan elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.'

Darren Millar

41

Section 8, page 3, after line 33, insert –

- '() The RSE Code must make provision that ensures children and pupils learn about –
- (a) the nature of long-term relationships, including marriage, and their importance for family life and the bringing up of children,
 - (b) the importance of safety in forming and maintaining relationships,
 - (c) the characteristics of healthy relationships,
 - (d) how relationships may affect physical and mental health and well-being,
 - (e) how values influence people's approach to sex and relationships, and
 - (f) the importance of respecting the values of others with regard to sex and relationships.'

Adran 8, tudalen 3, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- '() Rhaid i'r Cod ACRh wneud darpariaeth sy'n sicrhau bod plant a disgyblion yn dysgu am –
- (a) natur cydberthnasau hirdymor, gan gynnwys priodas, a'u pwysigrwydd o ran bywyd teuluol a magu plant,
 - (b) pwysigrwydd diogelwch wrth ffurfio a chynnal cydberthnasau,
 - (c) nodweddion cydberthnasau iach,
 - (d) sut y gall cydberthnasau effeithio ar iechyd a lles corfforol a meddyliol,
 - (e) sut y mae gwerthoedd yn dylanwadu ar agwedd pobl at ryw a chydberthnasau, ac
 - (f) pwysigrwydd parchu gwerthoedd pobl eraill o ran rhyw a chydberthnasau.'



Kirsty Williams

30

Section 8, page 3, line 34, leave out '74' and insert '75'.

Adran 8, tudalen 3, llinell 34, hepgorer '74' a mewnosoder '75'.

Sian Gwenllian

45

Page 3, after line 34, insert a new section –

[] The Code for Teaching Welsh on a Single Continuum

- (1) The Welsh Ministers must issue a code (the “Code for Teaching Welsh on a Single Continuum” (the “TWSC Code”)) which sets out how a curriculum is to make provision for teaching Welsh on a single continuum.
- (2) A curriculum does not encompass the mandatory element of Welsh unless it accords with the provision in the TWSC Code.
- (3) Teaching and learning does not encompass the mandatory element of Welsh unless it accords with the provision in the TWSC Code.
- (4) For further provision about the TWSC Code, see section 74.’.

Tudalen 3, ar ôl llinell 34, mewnosoder adran newydd –

[] Y Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwwm

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y “Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwwm” (y “Cod AGUC”)) sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg ar un continwwm.
- (2) Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu elfen fandadol y Gymraeg oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod AGUC.
- (3) Nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen fandadol y Gymraeg oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod AGUC.
- (4) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod AGUC, gweler adran 74.’.

Llyr Gruffydd

53

Page 3, after line 34, insert a new section –

[] The CCEE Code

- (1) The Welsh Ministers must issue a code (the “Climate Crisis and Ecological Emergency Code” (the “CCEE Code”)) setting out themes and matters to be encompassed by the mandatory element of Climate Crisis and Ecological Emergency.
- (2) A curriculum does not encompass the mandatory element of Climate Crisis and Ecological Emergency unless it accords with the provision in the CCEE Code.
- (3) Teaching and learning does not encompass the mandatory element of Climate Crisis and Ecological Emergency unless it accords with the provision in the CCEE Code.



- (4) The CCEE Code must ensure that Climate Crisis and Ecological Emergency is taught across all subjects and areas of learning and experience, across school curricula and syllabi.
- (5) For further provision about the CCEE Code, see section [(*section to be inserted by amendment 58*)].’.

Tudalen 3, ar ôl llinell 34, mewnosoder adran newydd –

[] Y Cod AHAE

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (Cod “yr Argyfwng Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol” (y “Cod AHAE”)) sy’n nodi themâu a materion sydd i’w cwmpasu gan elfen fandadol yr Argyfwng Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol.
- (2) Nid yw cwricwlwm yn cwmpasu elfen fandadol yr Argyfwng Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol oni bai ei fod yn cyd-fynd â’r ddarpariaeth yn y Cod AHAE.
- (3) Nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen fandadol yr Argyfwng Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol oni bai ei fod yn cyd-fynd â’r ddarpariaeth yn y Cod AHAE.
- (4) Rhaid i’r Cod AHAE sicrhau yr addysgir am yr Argyfwng Hinsawdd a’r Argyfwng Ecolegol ar draws pob pwnc a maes dysgu a phrofiad, ar draws cwricwla a meysydd llafur ysgolion.
- (5) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod AHAE, gweler adran [(*yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 58*)].’.

Sian Gwenllian

46

Section 10, page 4, after line 32, insert –

- ‘(3) That curriculum must also be designed to enable children and pupils to develop a common understanding of the diverse history, cultural heritage, ethnic diversity, identities, experiences and perspectives of Wales.’.

Adran 10, tudalen 4, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- ‘(3) Rhaid i’r cwricwlwm hwnnw hefyd gael ei gynllunio i alluogi plant a disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o hanes amrywiol, treftadaeth diwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau a safbwyntiau Cymru.’.

Suzy Davies

5

Section 11, page 5, at the beginning of line 2, insert ‘Subject to subsection [(*subsection to be inserted by amendment 7*)].’.

Adran 11, tudalen 5, ar ddechrau llinell 2, mewnosoder ‘Yn ddarostyngedig i is-adran [(*yr is-adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 7*)].’.



Suzy Davies

6

Section 11, page 5, line 7, after '25', insert –

, and

- (a) the governing body has informed parents of the school's pupils about the provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education'.

Adran 11, tudalen 5, llinell 8, ar ôl '25', mewnosoder –

, a

- (a) bod y corff llywodraethu wedi hysbysu rhieni disgyblion yr ysgol am y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'.

Suzy Davies

7

Section 11, page 5, after line 7, insert –

- '() The headteacher and governing body may delay adoption of the curriculum designed under section 10 for a period of not more than 12 months, if they are satisfied that –
 - (a) it is reasonable to do so in order to complete any work necessary to prepare for the enactment of this Act and which has been delayed as a result of coronavirus, and
 - (b) no pupil at the school will be disadvantaged as a result of the delay.
- () In this section "coronavirus" means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2).
- () Subsections [*(the three subsections to be inserted by this amendment)*] expire at the end of the day on 31 August 2023 unless extended by regulations.'

Adran 11, tudalen 5, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- '() Caiff pennaeth a chorff llywodraethu oedi mabwysiadu'r cwricwlwm a gynllunnir o dan adran 10 am gyfnod o ddim mwy na 12 mis, os ydynt yn fodlon –
 - (a) ei bod yn rhesymol gwneud hynny er mwyn cwblhau unrhyw waith sy'n angenrheidiol i baratoi ar gyfer deddfiad y Ddeddf hon ac sydd wedi ei oedi o ganlyniad i'r coronafeirws, a
 - (b) na fydd unrhyw ddisgybl yn yr ysgol o dan anfantais o ganlyniad i'r oedi.
- () Yn yr adran hon, ystyr "coronafeirws" yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).
- () Daw is-adrannau [*(y tair is-adran sy'n cael eu mewnosod gan y gwelliant hwn)*] i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Awst 2023 oni bai y'u hestynnir drwy reoliadau.'



Suzy Davies

8

Section 12, page 5, after line 21, insert—

- '() Before the head teacher and governing body revise provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education, the governing body must inform parents of the school's pupils.'

Adran 12, tudalen 5, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

- '() Cyn i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ddiwygio'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhaid i'r corff llywodraethu roi gwybod i rieni disgyblion yr ysgol.'

Suzy Davies

9

Section 15, page 6, line 14, after '25', insert—

', and

- (a) the provider of funded non-maintained nursery education has informed parents of children for whom that education is provided, about the provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education'

Adran 15, tudalen 6, llinell 16, ar ôl '25', mewnosoder—

', a

- (a) bod y darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wedi hysbysu rhieni'r plant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer, am y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'.

Suzy Davies

10

Section 16, page 6, after line 34, insert—

- '(7) Before a provider of funded non-maintained nursery education revises provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education, the provider must inform parents of children for whom that education is provided.'

Adran 16, tudalen 6, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

- '(7) Cyn i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ddiwygio'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhaid i'r darparwr hysbysu rhieni'r plant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer.'



Llyr Gruffydd

54

Section 24, page 8, after line 10, insert—

- '() The provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Climate Crisis and Ecological Emergency must—
- (a) reflect the urgency and necessity of tackling the climate crisis and protecting the ecological environment,
 - (b) ensure that such teaching is not confined to traditional subjects that cover this area, but also is overtly and covertly embedded across all areas of learning and experience, and
 - (c) recognise the importance of subliminal learning and promote a sustainable environment in which learning can take place.'

Adran 24, tudalen 8, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

- '() Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol yr Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Ecologol—
- (a) adlewyrchu natur frys ac angenrheidrwydd mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu'r amgylchedd ecolegol,
 - (b) sicrhau nad yw addysgu o'r fath wedi ei gyfyngu i bynciau traddodiadol sy'n ymdrin â'r maes hwn, ond ei fod hefyd wedi ei ymgorffori yn amlwg ac yn gynnil ar draws pob maes dysgu a phrofiad, ac
 - (c) cydnabod pwysigrwydd dysgu isganfyddol ac yn hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy ar gyfer dysgu.'

Darren Millar

42

Section 24, page 8, line 13, after 'children', insert ', and must have regard to their religious and cultural background'.

Adran 24, tudalen 8, llinell 12, ar ôl 'blant', mewnosoder ', a rhaid iddi roi sylw i'w cefndir crefyddol a diwylliannol'.

Gareth Bennett

35

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Reckless

Section 24, page 8, after line 20, insert—

- '() The provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Welsh must, in the case of English medium schools, accord with Part 1 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 39*].'

Adran 24, tudalen 8, ar ôl llinell 20, mewnosoder—

- '() Rhaid i'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol y Gymraeg, yn achos ysgolion cyfrwng Saesneg, gyd-fynd â Rhan 1 o Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 39*].'



Gareth Bennett

36

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Reckless

Section 29, page 10, line 19, after 'skills', insert –

, and

- (c) in respect of the mandatory element of Welsh, must, in the case of English medium schools, accord with Part 2 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 39*].

Adran 29, tudalen 10, llinell 19, ar ôl 'mandadol', mewnosoder –

, ac

- (c) mewn cysylltiad ag elfen fandadol y Gymraeg, y mae'n rhaid iddo, yn achos ysgolion cyfrwng Saesneg, gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 39*].

Gareth Bennett

37

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Reckless

Section 30, page 11, line 11, after '1', insert –

, and

- (c) in respect of the mandatory element of Welsh, must, in the case of English medium schools, accord with Part 2 of Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 39*].

Adran 30, tudalen 11, llinell 12, ar ôl '1', mewnosoder –

, ac

- (c) mewn cysylltiad ag elfen fandadol y Gymraeg, yn achos ysgolion cyfrwng Saesneg, gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 39*].



Gareth Bennett

39

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Reckless

Page 62, after line 7, insert a new schedule –

‘SCHEDULE 3

(introduced by sections [(subsection to be inserted by amendment 35)], [(paragraph to be inserted by amendment 36)], and [(paragraph to be inserted by amendment 37)])

WELSH

PART 1

CURRICULUM DESIGN

Application

- 1 This Part applies for the purposes of section [(subsection to be inserted by amendment 35)] (provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Welsh).

Provision designed in accordance with the Welsh Language Requirements Plan

- 2 The provision, insofar as it relates to –
- (a) the proportion of the curriculum that is taught through the medium of Welsh, and
 - (b) the Area of Learning and Experience in which the Welsh language is to be taught and assessed,
- must have been designed in accordance with the Welsh Language Requirements Plan.

PART 2

CURRICULUM IMPLEMENTATION

Application

- 3 This Part applies to the teaching and learning that must be secured under sections [(paragraph to be inserted by amendment 36)] and [(paragraph to be inserted by amendment 37)].

Teaching and learning of provision designed in accordance with the Welsh Language Requirements Plan

- 4 The teaching and learning must be that for which provision is made in the curriculum under paragraph 2 (provision designed in accordance with the Welsh Language Requirements Plan).



PART 3

WELSH LANGUAGE REQUIREMENTS PLAN

Preparation of the Welsh Language Requirements Plan

- 5 (1) Each local authority in Wales must prepare and publish a Welsh Language Requirements Plan for their area.
- (2) The plan must set out a local authority's requirements for –
- (a) the proportion of the curriculum that is to be taught through the medium of Welsh, in English medium schools, in its area;
 - (b) the Area of Learning and Experience in which the Welsh language is to be taught and assessed.
- (3) The plan may provide for different requirements in relation to different –
- (a) schools or classes of school;
 - (b) year groups.

Consultation to inform the Welsh Language Requirements Plan

- 6 Before preparing a plan under paragraph 5(1), the local authority must consult such persons as it considers appropriate.

Regard to the proportion of Welsh speakers

- 7 When considering its requirements under paragraph 5(2), a local authority must have regard to the proportion of Welsh speakers in its area.'

Tudalen 62, ar ôl llinell 7, mewnosoder atodlen newydd –

'ATODLEN 3

(a gyflwynir gan adrannau [(yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 35)], [(y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 36)], a [(y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 37)])

Y GYMRAEG

RHAN 1

CYNLLUNIO CWRICWLWM

Cymhwyso

- 1 Mae'r Rhan hon yn gymwys at ddibenion adran [(yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 35)] (darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol y Gymraeg).

Darpariaeth sydd wedi ei chynllunio yn unol â Chynllun Gofynion y Gymraeg

- 2 Rhaid bod y ddarpariaeth, i'r graddau y mae'n ymwneud ag –
- (a) y gyfran o'r cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, a



(b) y Maes Dysgu a Phrofiad y mae'r Gymraeg i'w haddysgu a'i hasesu ynddo, wedi ei chynllunio yn unol â Chynllun Gofynion y Gymraeg.

RHAN 2

GWEITHREDU CWRICWLWM

Cymhwyso

3 Mae'r Rhan hon yn gymwys i'r addysgu a dysgu y mae'n rhaid ei sicrhau o dan adrannau [(y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 36)] a [(y paragraff sy'n cael ei fewnosod gan welliant 37)].

Addysgu a dysgu darpariaeth sydd wedi ei chynllunio yn unol â Chynllun Gofynion y Gymraeg

4 Rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 2 (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio yn unol â Chynllun Gofynion y Gymraeg).

RHAN 3

CYNLLUN GOFYNION Y GYMRAEG

Llunio Cynllun Gofynion y Gymraeg

- 5 (1) Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru lunio a chyhoeddi Cynllun Gofynion y Gymraeg ar gyfer ei ardal.
- (2) Rhaid i'r cynllun nodi gofynion awdurdod lleol o ran—
- (a) y gyfran o'r cwricwlwm sydd i'w haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn ei ardal;
 - (b) y Maes Dysgu a Phrofiad y mae'r Gymraeg i'w haddysgu a'i hasesu ynddo.
- (3) Caiff y cynllun ddarparu ar gyfer gwahanol ofynion mewn perthynas â gwahanol—
- (a) ysgolion neu ddsbarthiadau mewn ysgol;
 - (b) grwpiau blwyddyn.

Ymgynghori i lywio Cynllun Gofynion y Gymraeg

6 Cyn llunio cynllun o dan baragraff 5(1), rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Sylw i'r gyfran o siaradwyr Cymraeg

7 Wrth ystyried ei ofynion o dan baragraff 5(2), rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn ei ardal.



Suzy Davies

13

Schedule 1, page 41, leave out lines 18 to 26 and insert –

- () The provision must also have been designed having regard to –
 - (a) provisions of the school's trust deed that relate to teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, or
 - (b) if there are no such provisions, the tenets of the religion or religious denomination specified in relation to the school in an order under section 68A of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).'

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.

Atodlen 1, tudalen 41, hepgorer llinellau 18 hyd at 28 a mewnosoder –

- '() Rhaid bod y ddarpariaeth hefyd wedi ei chynllunio gan roi sylw i –
 - (a) darpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
 - (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o'r fath, daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).'

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

Darren Millar

23

Schedule 1, page 41, after line 26, insert –

- '(5) The cost of making additional provision for teaching and learning in accordance with sub-paragraph (4) will not fall to be met by the school or local authority that maintains it.'

Atodlen 1, tudalen 41, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

- '(5) Ni fydd y gost o wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu yn unol ag is-baragraff (4) i'w thalu gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal.'

Suzy Davies

14

Schedule 1, page 41, line 29, leave out –

'accord –

- (a) with any provisions of the school's trust deed that relate to teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, or
- (b) if there are no such provisions, with the tenets of the religion or religious denomination specified in relation to the school in an order under section 68A of the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31).



- (3) Sub-paragraph (4) applies in those cases where the provision required under sub-paragraph (2) is not provision that accords with the agreed syllabus.
- (4) In those cases, the curriculum must also make additional provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Religion, Values and Ethics that must

and insert—

‘have been designed having regard to—

- (a) provisions of the school’s trust deed that relate to teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and Ethics, or
- (b) if there are no such provisions, with the tenets of the religion or religious denomination specified in relation to the school in an order under section 68A of the School Standards and Framework Act 1998 (c. 31).

() The provision must also’.

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.

Atodlen 1, tudalen 41, llinell 32, hepgorer—

‘i’r ddarpariaeth gyd-fynd—

- (a) ag unrhyw ddarpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy’n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
 - (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o’r fath, â daliadau’r grefydd neu’r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â’r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).
- (3) Mae is-baragraff (4) yn gymwys yn yr achosion hynny pan na fo’r ddarpariaeth sy’n ofynnol o dan is-baragraff (2) yn ddarpariaeth sy’n cyd-fynd â’r maes llafur cytunedig.
 - (4) Yn yr achosion hynny, rhaid i’r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu sy’n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae rhaid ei bod’

a mewnosoder—

‘bod y ddarpariaeth wedi ei chynllunio gan roi sylw i—

- (a) darpariaethau yng ngweithred ymddiriedolaeth yr ysgol sy’n ymwneud ag addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, neu
- (b) os nad oes unrhyw ddarpariaethau o’r fath, daliadau’r grefydd neu’r enwad crefyddol a bennir mewn perthynas â’r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 68A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

() Rhaid bod y ddarpariaeth hefyd’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio’r ddarpariaeth.



Darren Millar

24

Schedule 1, page 42, leave out lines 4 to 8.

Atodlen 1, tudalen 42, hepgorer llinellau 4 hyd at 8.

Darren Millar

25

Schedule 1, page 42, after line 8, insert –

- '(5) The cost of making additional provision for teaching and learning in accordance with sub-paragraph (4) will not fall to be met by the school or local authority that maintains it.'

Atodlen 1, tudalen 42, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- '(5) Ni fydd y gost o wneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer addysgu a dysgu yn unol ag is-baragraff (4) i'w thalu gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal.'

Darren Millar

26

Schedule 1, page 42, line 19, after 'syllabus)', insert –

' , except in the case of a pupil to whom sub-paragraph [(*second sub-paragraph to be inserted by this amendment*)] applies.

- () In the case of a pupil to whom sub-paragraph [(*second sub-paragraph to be inserted by this amendment*)] applies, the teaching and learning provided or arranged must be that which accords with the tenets of the religion or religious denomination requested by the parent.
- () This sub-paragraph applies to a pupil if a parent of the pupil requests that the teaching and learning in respect of the mandatory element of Religion, Values and ethics accords with the tenets of a particular religion or religious denomination.
- () The cost of providing or arranging education in accordance with sub-paragraph [(*second sub-paragraph to be inserted by this amendment*)] will not fall to be met by the school or local authority that maintains it'.

Atodlen 1, tudalen 42, llinell 20, ar ôl 'cytunedig)', mewnosoder –

' , ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff [(*yr ail is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan y gwelliant hwn*)] yn gymwys iddo.

- () Yn achos disgybl y mae is-baragraff [(*yr ail is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan y gwelliant hwn*)] yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu a ddarperir neu a drefnir fod yn addysgu a dysgu sy'n cyd-fynd â daliadau'r grefydd neu'r enwad crefyddol y gofynnodd y rhiant amdani neu amdano.
- () Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cyd-fynd â daliadau crefydd benodol neu enwad crefyddol penodol.
- () Ni fydd y gost o ddarparu neu drefnu addysg yn unol ag is-baragraff [(*yr ail is-baragraff sy'n cael ei fewnosod gan y gwelliant hwn*)] i'w thalu gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal'.



Suzy Davies

15

Schedule 1, page 42, line 24, leave out –

‘, except in the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies.

- (3) In the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies, the teaching and learning must be that for which provision is made in the curriculum under paragraph 3(3) (provision that accords with trust deed etc).
- (4) This sub-paragraph applies to a pupil if a parent of the pupil requests that the teaching and learning be that for which provision is made in the curriculum under paragraph 3(3) (provision that accords with’

and insert –

‘and paragraph [(sub-paragraph to be inserted by amendment 13)] (provision designed having regard to’.

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.

Atodlen 1, tudalen 42, llinell 26, hepgorer –

‘, ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

- (3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i’r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy’n cyd-fynd â’r weithred ymddiriedolaeth etc).
- (4) Mae’r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i’r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm o dan baragraff 3(3) (darpariaeth sy’n cyd-fynd â’r’

a mewnosoder –

‘a pharagraff [(yr is-baragraff sy’n cael ei fewnosod gan welliant 13)] (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i’r’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio’r ddarpariaeth.

Darren Millar

27

Schedule 1, page 42, after line 31, insert –

- (5) The cost of the teaching and learning in accordance with sub-paragraph (4) will not fall to be met by the school or local authority that maintains it.’.

Atodlen 1, tudalen 42, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- (5) Ni fydd y gost o addysgu a dysgu yn unol ag is-baragraff (4) i’w thalu gan yr ysgol neu’r awdurdod lleol sy’n ei chynnal.’.



Suzy Davies

16

Schedule 1, page 43, line 2, leave out –

‘that accords with trust deed etc), except in the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies.

(3) In the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies, the teaching and learning must be that for which provision is made in the curriculum in accordance with paragraph 4(3) (provision designed having regard to agreed syllabus).

(4) This sub-paragraph applies to a pupil if a parent of the pupil requests that the teaching and learning be that for which provision is made in the curriculum in accordance with paragraph 4(3)’

and insert –

‘designed having regard to trust deed etc), and paragraph [(sub-paragraph to be inserted by amendment 14)]’.

The purpose of this amendment is to ensure that all schools with a religious character have to have regard to both denominational RVE and agreed syllabus RVE when designing the provision.

Atodlen 1, tudalen 43, llinell 2, hepgorer –

‘sy’n cyd-fynd â’r weithred ymddiriedolaeth etc), ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

(3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i’r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i’r maes llafur cytunedig).

(4) Mae’r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i’r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3)’

a mewnosoder –

‘sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i’r weithred ymddiriedolaeth etc), a pharagraff [(yr is-baragraff sy’n cael ei fewnosod gan welliant 14)]’.

Diben y gwelliant hwn yw sicrhau bod pob ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn rhoi sylw i CGM enwadol a CGM y maes llafur cytunedig wrth gynllunio’r ddarpariaeth.



Darren Millar

28

Schedule 1, page 43, line 2, leave out –

‘, except in the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies.

- (3) In the case of a pupil to whom sub-paragraph (4) applies, the teaching and learning must be that for which provision is made in the curriculum in accordance with paragraph 4(3) (provision designed having regard to agreed syllabus).
- (4) This sub-paragraph applies to a pupil if a parent of the pupil requests that the teaching and learning be that for which provision is made in the curriculum in accordance with paragraph 4(3) (provision designed having regard to agreed syllabus)‘.

Atodlen 1, tudalen 43, llinell 3, hepgorer –

‘, ac eithrio yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo.

- (3) Yn achos disgybl y mae is-baragraff (4) yn gymwys iddo, rhaid i'r addysgu a dysgu fod yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig).
- (4) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i ddisgybl os yw rhiant i'r disgybl yn gofyn bod yr addysgu a dysgu yn addysgu a dysgu y gwneir darpariaeth ar ei gyfer yn y cwricwlwm yn unol â pharagraff 4(3) (darpariaeth sydd wedi ei chynllunio gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig)‘.

Darren Millar

29

Schedule 1, page 43, after line 9, insert –

‘(5) The cost of the teaching and learning in accordance with sub-paragraph (4) will not fall to be met by the school or local authority that maintains it.‘.

Atodlen 1, tudalen 43, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘(5) Ni fydd y gost o addysgu a dysgu yn unol ag is-baragraff (4) i'w thalu gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol sy'n ei chynnal.‘.

Suzy Davies

17

Schedule 1, page 43, after line 17, insert –

‘Duty to provide information: have regard

- 10 (1) The headteacher and governing body of a school must provide such information in relation to the exercise by them of their have regard duty as the Welsh Ministers specify in regulations.
- (2) Regulations under this paragraph must also specify –
 - (a) the form and manner in which the information is to be provided;
 - (b) the circumstances in which information is to be provided;



(c) the persons to whom information is to be provided.

- (3) In this paragraph, “have regard duty” means the duty in paragraphs 2(2), 3(2), [(sub-paragraph to be inserted by amendment 13)] and [(sub-paragraph to be inserted by amendment 14)] of Schedule 1.’.

Atodlen 1, tudalen 43, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth: rhoi sylw

- 10 (1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol ddarparu’r fath wybodaeth mewn perthynas ag arfer eu dyletswydd i roi sylw ag a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
- (2) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon hefyd bennu –
- (a) y ffurf a’r dull y mae’r wybodaeth honno i’w darparu ynnddi ac ynnddo;
 - (b) yr amgylchiadau y mae gwybodaeth i’w darparu oddi tanynt;
 - (c) y personau y mae’r wybodaeth i’w darparu iddynt.
- (3) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyletswydd i roi sylw” yw’r ddyletswydd ym mharagraffau 2(2), 3(2), [(yr is-baragraff sy’n cael ei fewnosod gan welliant 13)] a [(yr is-baragraff sy’n cael ei fewnosod gan welliant 14)] o Atodlen 1.’.

Suzy Davies

18

Schedule 1, page 43, after line 17, insert –

‘PART 4

COMPLAINTS ABOUT RVE PROVISION

Complaints

- 10 (1) This paragraph applies to –
- (a) a community school;
 - (b) a foundation or voluntary school without a religious character;
 - (c) a foundation or voluntary controlled school that has a religious character;
 - (d) a voluntary aided school that has a religious character.
- (2) The governing body of a school in sub-paragraph (1) must publicise, or make arrangements to publicise, the procedure for a pupil or their parent to make a complaint about the provision for teaching and learning encompassing the mandatory element of Religion, Values and Ethics.’.



Atodlen 1, tudalen 43, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘RHAN 4

CWYNION YNGHYLCH Y DDARPARIAETH CGM

Cwynion

10 (1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i –

- (a) ysgol gymunedol;
- (b) ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol heb gymeriad crefyddol;
- (c) ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol a reolir, sydd â chymeriad crefyddol;
- (d) ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol yn is-baragraff (1) gyhoeddi, neu wneud trefniadau i gyhoeddi, y weithdrefn i ddisgybl neu ei riant wneud cwyn am y ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy’n cwmpasu elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.’

Darren Millar

19

Page 14, after line 8, insert a new section –

‘Exception from Religion, Values and Ethics

[] Right of parents to withdraw pupils from RVE

If the parent of a pupil of compulsory school age at a maintained school requests that the pupil is wholly or partly excused from receiving teaching and learning encompassing Religion, Values and Ethics at the school, the pupil must be excused until the request is withdrawn.’

Tudalen 14, ar ôl llinell 9, mewnosoder adran newydd –

‘Eithriad rhag Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

[] Hawl rhieni i dynnu disgyblion yn ôl o CGM

Os yw rhiant disgybl o’r oedran ysgol gorfodol mewn ysgol a gynhelir yn gofyn bod y disgybl yn cael ei esgusodi yn gyfan gwbl neu’n rhannol rhag cael yr addysgu a dysgu sy’n cwmpasu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr ysgol, rhaid esgusodi’r disgybl nes bod y cais yn cael ei dynnu’n ôl.’



Darren Millar

20

Page 14, after line 8, insert a new section –

'Exception from Relationships and Sexuality Education

[] Right of parents to withdraw pupils or children from RSE

- (1) If the parent of a pupil at a school requests that the pupil is wholly or partly excused from receiving teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education at the school, the pupil must be excused until the request is withdrawn.
- (2) If the parent of a child for whom funded non-maintained nursery education is provided requests that the child is wholly or partly excused from receiving teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education at the provider of funded non-maintained nursery education, the child must be excused until the request is withdrawn.'

Tudalen 14, ar ôl llinell 9, mewnosoder adran newydd –

'Eithriad rhag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

[] Hawl rhieni i dynnu disgyblion yn ôl o ACRh

- (1) Os yw rhiant disgybl mewn ysgol yn gofyn bod y disgybl yn cael ei esgusodi yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhag cael yr addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol, rhaid esgusodi'r disgybl nes bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.
- (2) Os yw rhiant plentyn y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar ei gyfer yn gofyn bod y plentyn yn cael ei esgusodi yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhag cael yr addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, rhaid esgusodi'r plentyn nes bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.'

Sian Gwenllian

47

Section 50, page 22, after line 22, insert –

- '() The fifth requirement is that the curriculum must make provision to enable pupils to develop a common understanding of the diverse history, cultural heritage, ethnic diversity, identities, experiences and perspectives of Wales.'

Adran 50, tudalen 22, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '() Y pumed gofyniad yw bod rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth i alluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o hanes amrywiol, treftadaeth diwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau a safbwyntiau Cymru.'



Llyr Gruffydd

55

Section 50, page 22, after line 22, insert—

- () The fifth requirement is that the curriculum must make provision for teaching and learning that encompasses the mandatory element of Climate Crisis and Ecological Emergency that—
- (a) reflects the urgency and necessity of tackling the climate crisis and protecting the ecological environment,
 - (b) ensures that such teaching is not confined to traditional subjects that cover this area, but also is overtly and covertly embedded across all areas of learning and experience, and
 - (c) recognises the importance of subliminal learning and promotes a sustainable environment in which learning can take place.’.

Adran 50, tudalen 22, ar ôl llinell 21, mewnosoder—

- () Y pumed gofyniad yw bod rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol yr Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol sydd yn—
- (a) adlewyrchu natur frys ac angenrheidrwydd mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu'r amgylchedd ecolegol,
 - (b) sicrhau nad yw addysgu o'r fath wedi ei gyfyngu i bynciau traddodiadol sy'n ymdrin â'r maes hwn, ond ei fod hefyd wedi ei ymgorffori yn amlwg ac yn gynnil ar draws pob maes dysgu a phrofiad, ac
 - (c) cydnabod pwysigrwydd dysgu isganfyddol ac yn hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy ar gyfer dysgu.’.

Darren Millar

21

Page 23, after line 27, insert a new section—

‘Exception from Relationships and Sexuality Education

[] Right of parents to withdraw pupils from RSE

If the parent of any pupil at a pupil referral unit requests that the pupil is wholly or partly excused from receiving teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education at the pupil referral unit, the pupil must be excused until the request is withdrawn.’.

Tudalen 23, ar ôl llinell 29, mewnosoder adran newydd—

‘Eithriad rhag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

[] Hawl rhieni i dynnu disgyblion yn ôl o ACRh



Os yw rhiant unrhyw ddisgybl mewn uned cyfeirio disgyblion yn gofyn bod y disgybl yn cael ei esgusodi yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhag cael yr addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr uned cyfeirio disgyblion, rhaid esgusodi'r disgybl nes bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.'

Sian Gwenllian

48

Section 53, page 24, after line 14, insert—

- '(6) The fifth requirement is that the curriculum must make provision to enable pupils to develop a common understanding of the diverse history, cultural heritage, ethnic diversity, identities, experiences and perspectives of Wales.'

Adran 53, tudalen 24, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

- '(6) Y pumed gofyniad yw bod rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth i alluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o hanes amrywiol, treftadaeth diwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau a safbwyntiau Cymru.'

Llyr Gruffydd

56

Section 53, page 24, after line 14, insert—

- '(6) The fifth requirement is that the curriculum must make provision for teaching and learning that encompasses the mandatory element of Climate Crisis and Ecological Emergency that—
- (a) reflects the urgency and necessity of tackling the climate crisis and protecting the ecological environment,
 - (b) ensures that such teaching is not confined to traditional subjects that cover this area, but also is overtly and covertly embedded across all areas of learning and experience, and
 - (c) recognises the importance of subliminal learning and promotes a sustainable environment in which learning can take place.'

Adran 53, tudalen 24, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

- '(6) Y pumed gofyniad yw bod rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol yr Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Ecolegol sydd yn—
- (a) adlewyrchu natur frys ac angenrheidrwydd mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu'r amgylchedd ecolegol,
 - (b) sicrhau nad yw addysgu o'r fath wedi ei gyfyngu i bynciau traddodiadol sy'n ymdrin â'r maes hwn, ond ei fod hefyd wedi ei ymgorffori yn amlwg ac yn gynnil ar draws pob maes dysgu a phrofiad, ac
 - (c) cydnabod pwysigrwydd dysgu isganfyddol ac yn hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy ar gyfer dysgu.'



Darren Millar

22

Page 25, after line 2, insert a new section –

'Exception from Relationships and Sexuality Education

[] Right of parents to withdraw a child from RSE

If the parent of any child for whom arrangements are made under section 19A Education Act 1996 to provide education otherwise than at a pupil referral unit requests that the child is wholly or partly excused from receiving teaching and learning encompassing the mandatory element of Relationships and Sexuality Education as part of those arrangements, the child must be excused until the request is withdrawn.'

Tudalen 25, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

'Eithriad rhag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

[] Hawl rhieni i dynnu plentyn yn ôl o ACRh

Os yw rhiant unrhyw blentyn y mae trefniadau wedi eu gwneud ar ei gyfer o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 i ddarparu addysg ac eithrio mewn uned cyfeirio disgyblion yn gofyn bod y plentyn yn cael ei esgusodi yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhag cael yr addysgu a dysgu sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o'r trefniadau hynny, rhaid esgusodi'r plentyn nes bod y cais yn cael ei dynnu'n ôl.'

Suzy Davies

40

Page 27, after line 15, insert a new section –

[] Curriculum requirement: Relationships and Sexuality Education

- (1) The head teacher of a maintained school must ensure that teaching and learning in Relationships and Sexuality Education is provided at the school for pupils who request it.
- (2) The head teacher is to be treated as complying with subsection (1) if the teaching and learning is provided at the school at a time or times which are convenient for the majority of the pupils who have requested it.
- (3) The governing body of a maintained school must exercise its functions with a view to ensuring that teaching and learning in Relationships and Sexuality Education is provided in accordance with this section.'

Tudalen 27, ar ôl llinell 15, mewnosoder adran newydd –

[] Gofyniad cwricwlwm: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- (1) Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir sicrhau y darperir addysgu a dysgu mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n gofyn amdano.
- (2) Mae'r pennaeth i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio ag is-adran (1) os darperir yr addysgu a dysgu yn yr ysgol ar adeg neu adegau sy'n gyfleus i'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd wedi gofyn amdano.



- (3) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y darperir addysgu a dysgu mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn unol â'r adran hon.'.

Llyr Gruffydd

57

Section 62, page 28, after line 14, insert—

- '() A person within subsection (2) must, in exercising any function conferred by or under this Act, have regard to the mental health and emotional well-being support of children and young persons suffering from climate anxiety, and must—
- (a) provide support to children and young persons who request it;
 - (b) ensure that teacher education is provided to equip teachers with the skills and knowledge necessary to carry out their obligations under this subsection.'

Adran 62, tudalen 28, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

- '() Rhaid i berson o fewn is-adran (2), wrth arfer unrhyw swyddogaeth a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon, roi sylw i'r cymorth iechyd meddwl a lles emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef o orbryder hinsawdd, a rhaid iddo—
- (a) darparu cymorth i blant a phobl ifanc sy'n gofyn amdano;
 - (b) sicrhau y darperir addysg i athrawon er mwyn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan yr is-adran hon.'

Kirsty Williams

31

Page 28, after line 24, insert a new section—

'UN Conventions

[] Duty to promote knowledge and understanding of UN Conventions on the rights of children and persons with disabilities

- (1) The head teacher and governing body of a maintained school or a maintained nursery school must promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRDP, among those who provide teaching and learning in respect of the school's curriculum.
- (2) A provider of funded non-maintained nursery education must promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRPD, among those who provide teaching and learning in respect of the curriculum for children for whom that education is provided.
- (3) The local authority, the management committee (if there is one) and the teacher in charge of a pupil referral unit must promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the UNCRPD, among those who provide teaching and learning in respect of the curriculum for the unit.



(4) A local authority in Wales must promote knowledge and understanding of Part 1 of the UNCRC, and of the the UNCRPD, among those who provide teaching and learning otherwise than at a pupil referral unit under arrangements made by the authority under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56).

(5) In this section –

“UNCRC” (“CCUHP”) means the United Nations Convention on the Rights of the Child adopted and opened for signature, ratification and accession by General Assembly resolution 44/25 of 20 November 1989; and Part 1 of the UNCRC is to be treated as having effect –

(a) as set out for the time being in Part 1 of the Schedule to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 (nawm 2), but

(b) subject to any declaration or reservation as set out for the time being in Part 3 of that Schedule;

“UNCRDP” (“CCUHPA”) means the United Nations Convention on the Rights of Persons with Disabilities and its optional protocol adopted on 13 December 2006 by General Assembly resolution A/RES/61/106 and opened for signature on 30 March 2007; and it is to be treated as having effect subject to any declaration or reservation made by the United Kingdom Government upon ratification, save where the declaration or reservation has subsequently been withdrawn.’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 23, mewnosoder adran newydd –

‘Confensiynau’r Cenhedloedd Unedig

[] **Dyletswydd i hybu gwybodaeth am Gonfensiynau’r Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant a hawliau pobl ag anableddau a dealltwriaeth o’r Confensiynau hynny**

(1) Rhaid i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir hybu gwybodaeth am Ran 1 o CCUHP, ac am CCUHPA, a dealltwriaeth ohonynt, ymhlith y rheini sy’n darparu addysgu a dysgu mewn cysylltiad â chwricwlwm yr ysgol.

(2) Rhaid i ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir hybu gwybodaeth am Ran 1 o CCUHP, ac am CCUHPA, a dealltwriaeth ohonynt, ymhlith y rheini sy’n darparu addysgu a dysgu mewn cysylltiad â’r cwricwlwm i blant y darperir yr addysg honno ar eu cyfer.

(3) Rhaid i’r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a’r athro neu’r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion hybu gwybodaeth am Ran 1 o CCUHP, ac am CCUHPA, a dealltwriaeth ohonynt, ymhlith y rheini sy’n darparu addysgu a dysgu mewn cysylltiad â’r cwricwlwm ar gyfer yr uned.

(4) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru hybu gwybodaeth am Ran 1 o CCUHP, ac am CCUHPA, a dealltwriaeth ohonynt, ymhlith y rheini sy’n darparu addysgu a dysgu ac eithrio mewn uned cyfeirio disgyblion o dan drefniadau a wneir gan yr awdurdod o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).

(5) Yn yr adran hon –



ystyr “CCUHP” (“*UNCRC*”) yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i’w lofnodi, ei gadarnhau a’i gytuno gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol 44/25 dyddiedig 20 Tachwedd 1989; ac mae Rhan 1 o CCUHP i’w thrin fel pe bai’n cael effaith –

- (a) fel y’i nodir am y tro yn Rhan 1 o’r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (mccc 2), ond
- (b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y’i nodir am y tro yn Rhan 3 o’r Atodlen honno;

ystyr “CCUHPA” (“*UNCRDP*”) yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a’i brotocol dewisol a fabwysiadwyd ar 13 Rhagfyr 2006 gan benderfyniad y Cynulliad Cyffredinol A/RES/61/106 ac a agorwyd i’w lofnodi ar 30 Mawrth 2007; ac mae i’w drin fel pe bai’n cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad a wnaed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ôl ei gadarnhau, ac eithrio pan fo’r datganiad neu’r neilltuad wedi ei dynnu’n ôl wedi hynny.’.

Kirsty Williams

32

Section 65, page 30, line 24, leave out ‘1’ and insert ‘2’.

Adran 65, tudalen 30, llinell 24, hepgorer ‘1’ a mewnosoder ‘2’.

Sian Gwenllian

49

Page 30, after line 33, insert a new section –

[] Welsh Language Framework

- (1) The Welsh Ministers must –
 - (a) issue a Welsh Language Framework which supports the teaching and learning of Welsh on a single continuum in a school, and
 - (b) keep the Welsh Language Framework under review.
- (2) When the Welsh Ministers review the Welsh Language Framework under subsection (1)(b) and consider that a change is needed, they must –
 - (a) revise the Welsh Language Framework, and
 - (b) issue the revised Welsh Language Framework.
- (3) In the exercise of the functions conferred by or under this Act, the following persons must have regard to the Welsh Language Framework –
 - (a) the head teacher of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (b) the governing body of a maintained school or a maintained nursery school;
 - (c) a provider of funded non-maintained nursery education;
 - (d) the teacher in charge of a pupil referral unit;
 - (e) the management committee for a pupil referral unit;



- (f) a person who provides teaching and learning for a child, otherwise than at a maintained school, maintained nursery school or pupil referral unit, by virtue of arrangements made under section 19A of the Education Act 1996 (c. 56);
 - (g) a local authority in Wales.
- (4) Before issuing the Welsh Language Framework under subsection (1), the Welsh Ministers must consult the persons they think appropriate (if any).'

Tudalen 30, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd –

[] Fframwaith y Gymraeg

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru –
- (a) dyroddi Fframwaith y Gymraeg sy'n cefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg ar un continwmm mewn ysgol, a
 - (b) cadw Fframwaith y Gymraeg o dan adolygiad.
- (2) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn adolygu Fframwaith y Gymraeg o dan is-adran (1)(b) ac yn ystyried bod angen newid, rhaid iddynt –
- (a) diwygio Fframwaith y Gymraeg, a
 - (b) dyroddi Fframwaith y Gymraeg diwygiedig.
- (3) Wrth arfer y swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Ddeddf hon, rhaid i'r personau a ganlyn roi sylw i Fframwaith y Gymraeg –
- (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
 - (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
 - (d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
 - (e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;
 - (f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);
 - (g) awdurdod lleol yng Nghymru.
- (4) Cyn dyroddi Fframwaith y Gymraeg o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y maent yn meddwl eu bod yn briodol (os oes rhai). '.

Kirsty Williams

33

Section 68, page 32, line 21, after 'Act', insert ', with or without modifications,'.

Adran 68, tudalen 32, llinell 22, ar ôl 'hon', mewnosoder ', gydag addasiadau neu hebddynt'.



WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

*Suzy Davies

11

Page 33, after line 11, insert a new section –

'Consulting on requests for advice

[] Duty to consult the Senedd on requests for advice from Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales

Before requesting advice by way of an annual remit letter from Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales pursuant to section 20(2)(a) of the Education Act 2005, the Welsh Ministers must consult with the relevant committee of the Senedd with remit for the education of children and young persons. '.

Tudalen 33, ar ôl llinell 11, mewnosoder adran newydd –

'Ymgynghori ar geisiadau am wybodaeth

[] Dyletswydd i ymgynghori â'r Senedd ar geisiadau am gyngor gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cyn gwneud cais am gyngor drwy gyfrwng llythyr cylch gwaith blynyddol gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn unol ag adran 20(2)(a) o Ddeddf Addysg 2005, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor perthnasol y Senedd y mae ei gylch gwaith yn cynnwys addysg plant a phobl ifanc. '.

Suzy Davies

12

Page 33, after line 11, insert a new section –

'Reviewing implementation

[] Duty to review curriculum implementation

- (1) The Welsh Ministers must carry out reviews of curriculum implementation in respect of –
 - (a) registered pupils at maintained schools, except those over compulsory school age;
 - (b) registered pupils at maintained nursery schools;
 - (c) children for whom funded non-maintained nursery education is provided;
 - (d) children for whom education is provided under arrangements made by a local authority in Wales under section 19A of the Education Act 1996.
- (2) The first review must be completed before the beginning of the period of 12 months beginning with the day on which the Act receives Royal Assent.
- (3) Subsequent reviews must be completed before the end of the period of 12 months beginning with the day on which the previous review was completed until the end of the 5 year period.



- (4) The Welsh Ministers must prepare and publish a report of each review.
- (5) The Welsh Ministers must lay a copy of each report before Senedd Cymru.
- (6) Before carrying out a review under subsection (1), the Welsh Ministers must consult with the relevant committee of the Senedd with remit for the education of children and young persons on what a review is to include.
- (7) In this section, “the 5 year period” means the period of 5 years beginning with the day on which this section comes into force.’.

Tudalen 33, ar ôl llinell 11, mewnosoder adran newydd –

‘Adolygu gweithrediad

[] Dyletswydd i adolygu gweithrediad y cwricwlwm

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiadau o weithrediad y cwricwlwm mewn cysylltiad ag –
 - (a) disgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir, ac eithrio’r rheini dros yr oedran ysgol gorfodol;
 - (b) disgyblion cofrestredig mewn ysgolion meithrin a gynhelir;
 - (c) plant y darperir addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir ar eu cyfer;
 - (d) plant y darperir addysg ar eu cyfer o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996.
- (2) Rhaid cwblhau’r adolygiad cyntaf cyn dechrau’r cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.
- (3) Rhaid cwblhau adolygiadau dilynol cyn dechrau’r cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cafodd yr adolygiad blaenorol ei gwblhau tan ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad o bob adolygiad.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o bob adroddiad gerbron Senedd Cymru.
- (6) Cyn cynnal adolygiad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor perthnasol y Senedd y mae ei gylch gwaith yn cynnwys addysg plant a phobl ifanc ar yr hyn y mae adolygiad i’w gynnwys.
- (7) Yn yr adran hon, ystyr “y cyfnod o 5 mlynedd” yw’r cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y daw’r adran hon i rym.’.

Llyr Gruffydd

58

Page 34, after line 10, insert a new section –

[] The CCEE Code: procedure

- (1) Before issuing or revising the CCEE Code, the Welsh Ministers must –
 - (a) consult the persons they think appropriate (if any), and
 - (b) lay before Senedd Cymru a draft of the proposed Code (or, in the case of revisions, of the proposed revised Code).



- (2) The Welsh Ministers must not issue the CCEE Code (or the revised CCEE Code) unless a draft of the proposed Code (or of the proposed revised Code) –
 - (a) has been laid before the Senedd under subsection (1)(b), and
 - (b) has been approved by a resolution of the Senedd.
- (3) If the Senedd resolves to approve a draft laid before it under subsection (1)(b), the Welsh Ministers must issue the CCEE Code (or the revised CCEE Code) in the form of the draft.
- (4) Where the Welsh Ministers consult any persons about the CCEE Code before this section comes into force, that consultation is to be treated as fulfilling the duty in subsection (1)(a).'

Tudalen 34, ar ôl llinell 10, mewnosoder adran newydd –

[] Y Cod AHAE: y weithdrefn

- (1) Cyn dyroddi neu ddiwygio'r Cod AHAE, rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) ymgynghori â'r personau y maent yn meddwl eu bod yn briodol (os oes rhai), a
 - (b) gosod gerbron Senedd Cymru ddrafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, o'r Cod diwygiedig arfaethedig).
- (2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod AHAE (neu'r Cod AHAE diwygiedig) oni bai bod drafft o'r Cod arfaethedig (neu o'r Cod diwygiedig arfaethedig) –
 - (a) wedi ei osod gerbron y Senedd o dan is-adran (1)(b), a
 - (b) wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd.
- (3) Os yw'r Senedd yn penderfynu cymeradwyo drafft a osodwyd ger ei bron o dan is-adran (1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod AHAE (neu'r Cod AHAE diwygiedig) ar ffurf y drafft.
- (4) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag unrhyw bersonau ynghylch y Cod AHAE cyn i'r adran hon ddod i rym, mae'r ymgynghoriad hwnnw i'w drin fel pe bai'n cyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (1)(a).'

Sian Gwenllian

50

Section 74, page 34, after line 14, insert –

'(c) the TWSC Code.'

Adran 74, tudalen 34, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

'(c) y Cod AGUC.'

Gareth Bennett

38

Gyda chefnogaeth / Supported by: Mark Reckless

Section 80, page 38, after line 6, insert –

“English medium school” (“ysgol cyfrwng Saesneg”) means a maintained school whose registered pupils are taught mainly through the medium of English.’



Adran 80, tudalen 38, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

'ystyr "ysgol cyfrwng Saesneg" ("*English medium school*") yw ysgol a gynhelir yr addysgir ei disgyblion cofrestredig yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.'

